Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Adeiladau'r Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m. ar ddydd Mercher, 22ain Chwefror 2006

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins; Dirprwy Faer Hugh Towns; Cyng Mrs Fran Murphy; Cyng Richard Wallace; Cyng Ros Bellamy; Cyng Pam Steane Price; Cyng Ieuan Gwyn; Mr. Des Davies (Swyddog Technegol); Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Yn Bresennol: Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Paul Faulkner, Cyng Roy Davies, Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)

6711/ Chwefror / 06 - Cofnodion Blaenorol

1. Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 25ain Ionawr 2006 fel cofnod cywir o'r cyfarfod gyda'r newidiadau canlynol :

   Cofnod 6688 – Llwybr Troed Glynceirch – fe ddylai ddarllen eitem 3 a Swyddog Technegol yn hytrach na Swyddog Cyllid
   Cofnod *6692 - Gwefan – rhoi hysbysfwrdd yn lle trwydded yn y llinell gyntaf*

   Cynigiwyd gan y Cyng Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Bellamy

2. Darllenwyd a derbyniwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 8fed Chwefror 2006 gyda'r newidiadau canlynol

   Cofnod 6698 – ychwanegu bod barn y Cyngor yn parhau yr un fath â phan ymgynghorwyd ar y cais cynllunio
   Cofnod 6700 – ychwanegu 'a choed unigol fel y rhifwyd'
   Cofnod 6702 – eitem 1 – rhoi 'ei roi i'r Swyddog Technegol i'w weithredu' yn lle 'Nodwyd'

   Cynigiwyd gan y Cyng Murphy ac eiliwyd gan Cyng Wallace.

3. Darllenwyd a derbyniwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 8fed Chwefror 2006 yn Neuadd y Sir gyda'r newidiadau canlynol :

   Cofnod 6707 – rhoi 'Pam Steane Price' yn lle 'Ieuan Gwyn' yn y llinell gyntaf
   Cofnod 6710 – eitem 1 – yn y llinell olaf ond un ychwanegu 'llwybr troed trwodd' cyn 'mynwent'
   Cofnod 6710 – eitem 3 – yn y llinell gyntaf dileu 'amcangyfrif am' ac ychwanegu 'wedi'i archebu' wedi 'hysbysfwrdd'

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cynigwyd gan Cyng Towns ac eiliwyd gan Cyng Steane Price.

6712/ Chwefror / 06 – Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

1. *Cofnod 6688 – eitem 2 – atgyweirio'r simnai*
   Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi cysylltu â'r cwmni sgaffaldiau ac roeddynt yn barod i ymestyn y cyfnod y bydd mewn lle o 5 wythnos i 12 wythnos heb unrhyw gost ychwanegol. Penderfynwyd y dylid mynd yn ei flaen â'r mater dim ond fod perchnogion y Siop Anifeiliaid Anwes yn cytuno rhoi mynediad dros eu tir hwy.

2. *Cofnod 6703*
   Dywedodd y Cyng Towns fod yr Ysgol Gynradd wedi bod ar gau yn gyfangwbl ar y 9fed a 10fed Chwefror. Ail-agorodd yr Adran Iau ar ddydd Llun 13eg Chwefror ond bydd Adran y Babanod yn parhau ar gau tan ddydd Iau 16eg Chwefror tra bod gwaith glanhau yn cael ei wneud gan y Cyngor sir. Bydd gwaith i'r draeniau yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir yn ystod Hanner Tymor.

3. *Cofnod 6708*
   Rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion manwl o'r effaith y byddai cynnydd yn oriau'r Swyddog Technegol o 5 i 7 awr yr wythnos yn ei gael. Byddai'n cynyddu costau cyflogau yn wreiddiol gyda £798.36 y flwyddyn gan dybio y bydd cynnydd o 3% mewn cyflogau i bawb gan gynyddu costau o £1067.69 i £9247.13. Y gyllideb ar gyfer cyflogau oedd £8500. Byddai'r Archeb Safonol misol a thaliadau Dros Ben yn newid ac fe fyddai'n rhaid cadarnhau hyn. Hefyd byddai angen taliad adolygol o £423.53 am oriau ychwanegol sydd eisoes wedi eu gwneud gan y Swyddog Technegol. Ystyriwyd fod hyn yn amlwg yn sefyllfa eithriadol gan fod y Swyddog Technegol wedi etifeddu sefyllfa lle'r oedd y swydd wedi bod yn wag am gryn amser a bod y gwaith wedi cronni a bod angen mynd i'r afael ag ef yn gyflym neu ni fyddai yna Arddangosfa Tân Gwyllt nac Arddangosfa o Oleuadau Nadolig. Cytunwyd felly i dalu'r oriau sydd eisoes wedi eu gweithio y tro hwn ond cytunwyd hefyd na ddylai hyn osod cynsail am oriau goramser i unrhyw swyddog ac y dylid cytuno arno o flaenllaw yn y dyfodol. Penderfynwyd hefyd nad yw 5 awr yr wythnos yn amlwg yn ddigon i gyflawni'r tasgau sy'n ddisgwyliadwy o'r Swyddog Technegol ac er mwyn lledu'r costau yn fwy cyfartal trwy gydol y flwyddyn bydd oriau'r Swyddogion Technegol yn cynyddu i 7 yr wythnos. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y goblygiadau o ran y gyllideb.

4. *Cofnod 6709*
   Dywedodd y Swyddog Cyllid bod Mr Lyn Llewellyn wedi cytuno'n anffurfiol i wneud Archwiliad Mewnol. Mae llythyr i'w anfon ato'n ffurfiol ynglŷn â gweithredu fel Archwiliwr Mewnol.

6713 / Chwefror / 06 – Adroddiad y Maer

Dywedodd y Maer ei bod wedi bod yn dawel yn ddiweddar a'i fod wedi mynychu dau gyfarfod ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Llawn.

6714 / Chwefror / 06 – Prosiect Llwybr Treftadaeth y Dref

Adroddodd y Cyng Bellamy fod yna broblem fach o ran amseru'r prosiect. Rhagwelir nawr na fydd y prosiect yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol hon ac y bydd yn mynd i mewn

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

i'r flwyddyn nesaf. Gobeithiwyd y byddai'r arian grant dal ar gael, bydd yn rhaid cadarnhau hyn gyda'r Cyngor Sir. Beth bynnag bydd y ffioedd sydd eisoes wedi'u talu i Archaeoleg Cambria yn cael eu hadennill y flwyddyn ariannol hon.

6715 / Chwefror / 06 – Prosiect yr Ardd

Cafwyd adroddiad cynnydd gan y Cyng Steane Price. Roedd y Gweithgor wedi cwrdd ar 11eg a 18fed Chwefror ac wedi cynnau coelcerthi er mwyn llosgi'r mieri. Roedd dau o wirfoddolwyr newydd wedi ymuno ar y 18fed, Robert Bullen Whatling, sy'n gweithio tuag at ei Wobr Dug Caeredin, a'i fam. Wnaeth arbenigwr ar goed afalau, Paul Davies o "Dolau Hirion Nursery", ymweld gan argymell mathau lleol o goed afalau yr oedd ef o'r farn oedd yn addas i'r safle. Hefyd wnaeth aelodau o'r Gweithgor ymweld â Fferm Dinas Abertawe ar y 27ain Chwefror 2006.

Mae Mike Lewis wedi dod atom ynglŷn â chael mynediad posib trwy ein Gerddi o Heol Cilgant, trwy erddi sydd gerllaw. Gan fod angen stribed 2 m o led er mwyn cael mynediad i'r wal gynnal efallai bydd yn bosib cytuno ar roi mynediad ar yr amod fod y stribed yn cael ei gynnal a chadw. Gan fod angen y stribed yn bennaf er mwyn darparu mynediad i'r wal gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir Jones ofyn a fyddai'r Cyngor Sir yn ystyried ymgymryd â'r gwaith clirio cychwynnol.

6716 / Chwefror / 06 – Prosiect Neuadd y Sir

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig cyfrinachol ar y sefyllfa bresennol gan y Cyng Gwyn. Penderfynwyd cymeradwyo gweithredoedd y Cyng Gwyn i gadw Paul Regan fel ein pensaer a gofyn i Mr Regan fynd ymlaen gyda'r cynlluniau a dogfennau tendir. Yn amlwg roedd y gweithredoedd hyn yn angenrheidiol er mwyn lleihau oedi a phe bai y cais am grant yn methu mae'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am y ffioedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud y gwaith er mwyn gwneud cais am grant beth bynnag felly doedd dim dewis.

6717 / Chwefror / 06 – Y Diweddaraf am y Wefan.

Adroddodd y Cyng Steane Price fod angen ailwampio'r wefan er mwyn ei diweddaru a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer y dyfodol agos i ystyried y mater.

6718 / Chwefror / 06 – Arddangosfa Tân Gwyllt

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Towns o gyfarfod o'r Gweithgor Tân Gwyllt ar 19 Ionawr 2006 sydd wedi'i atodi at y cofnodion hyn. Roedd yna nifer o faterion yr oedd angen eu hystyried a bydd y grŵp yn cwrdd unwaith eto ar 2 Mawrth. Diolchodd y Swyddog Technegol am yr Adroddiad wnaeth ei ddosbarthu.

6719 / Chwefror / 06 – Goleuadau Nadolig

Darparwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Towns o gyfarfod o'r Gweithgor Goleuadau Nadolig ar 16 Chwefror 2006 sydd wedi'i atodi at y cofnodion hyn. Roedd nifer o faterion o dan ystyriaeth a bydd y Grŵp yn cyfarfod unwaith eto ar 16 Mawrth. Diolchwyd i'r Swyddog Technegol am yr Adroddiad wnaeth ei ddosbarthu.

6720 / Chwefror / 06 – Materion Iechyd a Diogelwch

1. Cynigiwyd gan y Cyng Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Bellamy na ddylai'r Cyngor ddefnyddio cemegau wrth gynnal a chadw llwybrau troed fel mater o bolisi. Cytuno. Torri

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

llwybrau troed unwaith ym mis Mehefin a lle mae angen torri ddwywaith yna dylid gwneud hyn ym mis Mai a diwedd Medi.
2. Mae'n ofynnol i arwyddo i mewn i Neuadd y Sir yn ystod y dydd nawr fod y swyddfa yno er mwyn i Cambria fod yn ymwybodol o bwy sydd yn yr adeilad pe bai tân ayb yn digwydd. Penderfynwyd y dylid prynu bwrdd gwyn er mwyn i swyddogion ac aelodau ysgrifennu arno pan oeddynt yn y swyddfa yn ogystal ag arwyddo yn y llyfr ymwelwyr.

6721 / Chwefror / 06 – Gohebiaeth

1. E-bost oddi wrth Meirion Owen yn hysbysu bod Sir Gaerfyrddin i gynnal Treialon Cŵn Defaid y Byd yn 2008 a bod Parc Dinefwr yn cael ei ystyried fel lleoliad posib.
2. Un Llais Cymru yn gofyn am enwebiad y Cadeirydd i'w ystyried i fynychu Garddwest ym Mhalas Buckingham. Penderfynwyd enwebu'r Maer.
3. Llythyr oddi wrth Mark James, Prif Weithredwr, Cyngor Sir mewn ymateb i'n llythyr parthed y Pwll Nofio yn Nhre-gib. Nodwyd. Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones fod cyfarfod wedi'i gynnal mewn perthynas â darparu cyfleusterau eraill yn Nhre-gib.
4. Llythyr oddi wrth W.G. Evans mewn perthynas a rheoli traffig yn Llandeilo. Nodwyd.
5. Llythyr oddi wrth Margaret Rees mewn perthynas â statws Dinas Araf. Nodwyd.
6. Gwybodaeth gan WCVA ei bod yn bosib adrodd ar lein i Tollau ac Ecseis EM. Nodwyd.
7. Adnewyddu Aelodaeth Un Llais Cymru yn ddyledus £196.00. Penderfynwyd adnewyddu aelodaeth.
8. Cylchlythyr CAVS Gwanwyn 2006. Nodwyd.
9. Mae nifer o lythyron wedi'u derbyn oddi wrth drigolion ym Maes Tomos mewn perthynas â chais cynllunio ar gyfer Ystafelloedd Arwerthu yn Ffordd yr Orsaf. Penderfynwyd y dylid cydnabod derbyn y llythyron, gan ddwyn sylw at y ffaith fod y llythyron hyn wedi dod i mewn yn rhy hwyr iddynt gael eu hystyried wrth i'r Cyngor drafod y mater a dylid darparu copi o gofnod y Cyngor gyda'r argymhelliad. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu ailystyried o fewn 6 mis.

6722 / Chwefror / 06 – Materion nad oes angen penderfyniad

1. Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones fod angen gwneud gwaith gwerth £30,000 ar y Pafiliwn Tennis ym Mharc le Conquet.
2. Dywedodd y Cyng Steane Price fod cwynion yn cael eu derbyn o hyd gan ddefnyddwyr y parc sglef-fyrddio ym Mharc le Conquet o ran diogelwch. Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones fod yr offer wedi'i archwilio ac ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch.
3. Penderfynwyd yn y dyfodol y bydd eitem yn cael ei chynnwys ar yr agenda yn ymdrin â materion y Cyngor Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.22 pm

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk